

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD IAU, 12 CHWEFROR 2026

COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR SAFONNAU A GYNHALIWDYD REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS AR DYDD IAU, 12 CHWEFROR 2026 10:00

Presennol – O Bell

S Maughan – Cadeirydd

JE Evans
G Walter

M Daley
P Baker

MJ Williams
R Lynch

G Thomas

Swyddogion:

Laura Griffiths
Michael Pitman
Oscar Roberts

Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Swyddog Cymorth Technegol - Gwasanaethau Democrataidd
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro – Pwyllgorau

192. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	12 Chwefror 2026

193. Datganiadau o fuddiant

Y penderfyniad a wnaed	Gwnaed y datganiadau buddiant canlynol:- <ul style="list-style-type: none">• Datganodd y Cynghorydd Martin Williams fuddiant personol yn Eitem 6 fel aelod o Gyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr, sef pwnc yr adroddiad hwnnw.• Datganodd y Cynghorydd Graham Walter fuddiant personol yn Eitem 6 gan fod ei bartner yn aelod
------------------------	---

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD IAU, 12 CHWEFROR 2026

	<p>o Gyngor Tref Porthcawl. Datganwyd bod y datganiad hwn yn rhagfarnus yn ddiweddarach yn ystod y drafodaeth ar Eitem 4, pan adawodd y Cynghorydd Walter y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.</p> <ul style="list-style-type: none">• Datganodd y Cynghorydd Gavin Thomas fuddiant personol yn Eitem 6 fel Cadeirydd Cyngor Tref Maesteg.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	12 Chwefror 2026

194. Cymeradwyaeth Cofnodion

Y penderfyniad a wnaed	<p><u>PENDERFYNWYD</u>: Bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 06/02/2025, 26/02/2025, 30/05/2025, 14/07/2025 a 22/07/2025 wedi'u cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir yn amodol ar newid y teitl i'r Cadeirydd Sue Maughan ddileu'r Cynghorydd wrth ymyl ei henw, a gafodd ei nodi'n anghywir ar lawer o gofnodion.</p> <p>Nodwyd penderfyniad blaenorol gan y Pwyllgor yn awgrymu hyfforddiant i Aelodau yn y dyfodol. Awgrymodd aelod o'r Pwyllgor y gallai'r Protocol Datrys Lleol fod yn bwnc hyfforddi buddiol, a chytunwyd ar hyn gan y Cadeirydd. Codwyd goddefebau hefyd fel pwnc defnyddiol posibl ar gyfer hyfforddiant.</p>
Dyddiad gwneud y penderfyniad	12 Chwefror 2026

195. Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024/25

Y penderfyniad a wnaed	<p>Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd, oedd cyflwyno Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2024/25 i'r Pwyllgor Safonau i'w nodi. Amlinellodd yr adroddiad gyfanswm o 58 o gwynion yn erbyn yr Awdurdod yn ystod 2024/25 a 59 o gwynion yn ystod 2023/24.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau ar:</p> <ul style="list-style-type: none">• Pam mai dim ond 28% o'r argymhellion a wnaed i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y cydymffurfiwyd â nhw o fewn yr amserlen ragnodedig, ac a ellir datgelu'r argymhellion hynny i'r Pwyllgor?
------------------------	---

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD IAU, 12 CHWEFROR 2026

	<ul style="list-style-type: none">• A all y Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am Gyngor Tref a Chymuned sydd â nifer uchel o gwynion ynghylch cod ymddygiad, a'r camau gweithredu posibl y gellir eu cymryd?• A allai'r Pwyllgor Safonau lunio llythyr at Gadeirydd Cyngor Tref a Chymuned yn nodi eu hymwybyddiaeth o'r nifer uchel o gwynion a chynnig cefnogaeth bosibl? <p>Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, a gytunodd i ymchwilio i'r rhesymau dros y ffigur cydymffurfio isel gyda'r tîm Cwynion ac anfon diweddariad at y Pwyllgor pan fydd hynny'n hysbys.</p> <p><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.</p> <p>Argymhellodd y Pwyllgor ymhellach y dylid anfon llythyr oddi wrth y Swyddog Monitro at Gyngor Tref Porthcawl yn nodi eu hymwybyddiaeth o'r nifer uchel o gwynion ynghylch cod ymddygiad a chynnig unrhyw gefnogaeth yn ôl yr angen.</p>
Dyddiad gwneud y penderfyniad	12 Chwefror 2026

196. Protocol Datrys Lleol

Y penderfyniad a wnaed	<p>Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, oedd cyflwyno'r Protocol Datrys Lleol diwygiedig i'r Pwyllgor Safonau i'w ystyried yn dilyn adolygiad a gynhaliwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) o holl brotocolau datrys lleol prif awdurdodau lleol ledled Cymru ac argymhellion a wnaed gan Grŵp Swyddogion Monitro Cymru Gyfan.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• A oes gan Gyngorau Tref a Chymuned brotocolau tebyg?• A ellid rhoi mesurau ar waith i gynyddu ymwybyddiaeth o'r protocol hwn?• Y trothwy lle byddai'r Swyddog Monitro yn gorfod cyfeirio cwynion at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn hytrach na defnyddio'r protocol.• A yw Aelodau wedi gallu cyfrannu at ddrafftio'r protocol?• A yw'r Awdurdod yn cadw ystadegau neu'n dadansoddi'r cwynion bach yr ymdriniwyd â nhw o dan y protocol? A ellid cofnodi presenoldeb mewn hyfforddiant ar gyfer Aelodau Cyngorau Tref a Chymuned?
------------------------	--

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD IAU, 12 CHWEFROR 2026

	<ul style="list-style-type: none">• A ellid rhannu nifer yr Aelodau o Gyngorau Tref a Chymuned nad ydynt wedi cael hyfforddiant gorfodol a dewisol gyda'r Pwyllgor?• A ellid gofyn i Arweinwyr y Grŵp am eu cynnydd o ran annog safonau uchel o ymddygiad a phresenoldeb mewn hyfforddiant i Aelodau gyda'u grwpiau priodol yn y Pwyllgor Safonau nesaf y byddant yn bresennol ynddo? <p>Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, a gytunodd i argymhell sawl cam gweithredu ynghylch y protocol.</p> <p><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor wedi cytuno ar y Protocol Datrys Lleol diwygiedig i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo.</p>
Dyddiad gwneud y penderfyniad	12 Chwefror 2026

197. Diweddariadau o Arsylwi Cyfarfodydd Cyngorau Tref a Chymuned

Y penderfyniad a wnaed	<p>Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Safonau yn dilyn Aelodau'r Pwyllgor hwn yn arsylwi cyfarfodydd Cyngorau Tref a Chymuned. Mae tri arsylwad wedi digwydd yn ystod y misoedd diwethaf o Gyngorau Tref a Chymuned, gydag unrhyw sylwadau perthnasol wedi'u nodi.</p> <p>Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau ar y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Yr amserlen ymweliadau a luniwyd gan y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd ac a ddosbarthwyd i'r Pwyllgor.• A ellid trefnu rota neu amserlen o aelodau'r Pwyllgor yn gwylio cyfarfodydd?• A yw'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn yn y parth cyhoeddus, ac a yw Clercod ac Aelodau Cyngorau Tref a Chymuned yn cael gwybod am gyhoeddi'r sylwadau hyn?• Cynllunio olyniaeth ar gyfer Clercod Tref a Chymuned.• A all Aelodau'r Pwyllgor nad ydynt yn annibynnol hefyd weld cyfarfodydd Cyngor y Fwrdeistref fel rhan o'r arsylwadau hyn? <p>Cafodd y cwestiynau hyn eu hateb gan y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, a gytunodd i rannu unrhyw adborth o'r arsylwadau o Gyngorau Tref a Chymuned gyda'r Clercod ar ôl iddynt</p>
------------------------	---

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD IAU, 12 CHWEFROR 2026

	<p>gael eu cyhoeddi. Eglurodd y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd hefyd y byddai cymorth gyda chynllunio olyniaeth ar gyfer Clercod Cyngorau Tref a Chymuned y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor.</p> <p><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.</p>
Dyddiad gwneud y penderfyniad	12 Chwefror 2026

198. Penodi Is-gadeirydd

Y penderfyniad a wnaed	<p>Diben yr adroddiad hwn, a gyflwynwyd gan y Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidd, oedd penodi Is-gadeirydd ar gyfer y Pwyllgor Safonau.</p> <p>Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau. Nodwyd bod dau o'r Aelodau Annibynnol newydd eu penodi i'r Pwyllgor ac efallai y byddent am gymryd rhagor o amser i ymgyfarwyddo â'r rôl a'i chyfrifoldebau. Yn ogystal, nododd dau aelod arall nad oeddent yn gallu ymrwmo i'r rôl ar hyn o bryd oherwydd ymrwymadau eraill.</p> <p><u>PENDERFYNWYD:</u> Gohirio penodi Is-gadeirydd tan y cyfarfod nesaf.</p>
Dyddiad gwneud y penderfyniad	12 Chwefror 2026

199. Materion Brys

Y penderfyniad a wnaed	Dim.
Dyddiad gwneud y penderfyniad	12 Chwefror 2026

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Terfynwyd y cyfarfod yn 11:27